Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Llansteffan**
**Y Caban**
**Ysgol Gynradd Llansteffan**
**Llansteffan**
**Sir Gaerfyrddin**
**SA33 5LN**

**Dyddiad yr arolygiad: 5 Rhagfyr 2011**

**gan**

**Dorothy Morris**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrau Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Llansteffan mewn caban ar safle'r ysgol gynradd. Mae'r plant sy'n mynychu'r lleoliad yn byw yn y pentref a'r ardaloedd cyfagos. Bernir nad yw'r ardal yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd na chymdeithasol.

Mae'r lleoliad yn darparu ar gyfer plant dwy a thair oed am bedwar sesiwn yr wythnos yn ystod y tymor ysgol. Mae'r lleoliad ar agor rhwng 9:15 a 11:45 y bore. Yn ystod yr arolygiad, yr oedd tri phlentyn tair oed ar y gofrestr. Saesneg yw prif iaith y cartref i'r rhan fwyaf o'r plant. Ar hyn o bryd, nid oes neb o gefndir lleiafrifol ethnig yn mynychu na phlant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r lleoliad yn derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac mae trefniadau cefnogi addas yn eu lle.

Mae dau aelod o staff. Mae'r lleoliad yng ngofal prif ymarferydd profiadol ac mae yna un ymarferydd arall llawn amser. Maent yn meddu ar gymwysterau priodol ym maes addysg a gofal plant bach. Cafodd y lleoliad ei arolygiad diwethaf gan Estyn ym Mawrth 2004 a chan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yng Ngorffennaf 2011.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae'r plant yn hapus ac yn mwynhau'r profiadau dysgu a ddarperir;
- caiff y gweithgareddau eu cynllunio a'u paratoi'n ofalus;
- caiff y plant ofal da mewn amgylchedd dysgu cynhwysol;
- mae perthynas dda iawn rhwng y plant a'r ymarferwyr;
- ceir ymarferwyr ymroddedig sy'n cyflawni eu cyfrifoldebau yn effeithiol.

**Rhagolygon gwella**

Mae gan y lleoliad ragolygon gwella da oherwydd:

- rheolaeth effeithiol y prif ymarferydd;
- gwaith tîm da;
- y ffocws llwyddiannus ar wella'r ddarpariaeth;
- ymrwymiad y staff i ddatblygiad addysgol a phersonol y plant;
- cefnogaeth dda y pwyllgor rheoli a'r rhieni;
- y cydweithio effeithiol gyda'r ysgol gynradd.

## Argymhellion

Er mwyn datblygu ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 fireinio'r cynllunio i ymestyn medrau dysgu'r plant hŷn yn gynyddol;

A2 gyflwyno patrymau brawddegol Cymraeg yn fwy cyson er mwyn cryfhau medrau cyfathrebu'r plant;

A3 ehangu'r cyfleoedd i'r plant i weithio'n fwy annibynnol;

A4 ymestyn gwybodaeth yr ymarferwyr o brosesau a medrau hunan arfarnu.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Amherthnasol |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o weithgareddau perthnasol sy'n ennyn diddordeb y plant. Caiff y gweithgareddau eu cynllunio'n ofalus ar draws y chwe maes dysgu. Rhydd sylw cyson i hybu medrau dysgu'r plant. Cânt eu hymgorffori'n effeithiol yn y themâu a'r profiadau a gynllunnir. Fodd bynnag, nid oes sylw digonol bob amser i sicrhau bod medrau'r plant hŷn yn cael eu hymestyn yn gynyddol.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd dan do a'r amgylchedd awyr agored yn dda i annog plant i arbrofi â phrofiadau newydd. Mae'r profiadau o dyfu a gofalu am blanhigion a'r ymweliadau, megis â chanolfan anifeiliaid anwes, yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o bwysigrwydd gofalu am yr amgylchedd a phob peth byw. Darperir cyfleoedd priodol i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r byd ehangach trwy drafod lluniau o bobl o wledydd eraill a rhai o'u dathliadau megis y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd.

Darperir anogaeth gyson i'r plant ddefnyddio medrau Cymraeg yn eu dysgu a'u chwarae. Er hyn, nid oes ffocws digonol ar gyflwyno patrymau brawddegol sylfaenol yn rheolaidd. Mae'r ymarferwyr yn datblygu ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a dathliadau Cymru drwy weithgareddau addas megis dathlu Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen, a choginio bwydydd Cymreig. Cânt hefyd flas ar ddathliadau diwylliannau eraill megis gŵyl Diwali.

**Addysgu: Da**

Llwyddir i greu amgylchedd dysgu hapus a chynhaliol i'r holl blant. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth gynyddol o ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Maent yn cyd-gynllunio'r ddarpariaeth yn effeithiol sy'n sicrhau bod y gweithgareddau wedi'u paratoi a'u trefnu'n fanwl. Defnyddir ystod o ddulliau addysgu priodol, gan gynnwys gwaith ar lefel unigol, grŵp bach a grŵp cyfan. Rhydd sylw da i sicrhau adnoddau pwrpasol i hyrwyddo'r dysgu. Er hyn, mae'r cyfleoedd i'r plant weithio'n annibynnol yn fwy cyfyngedig. Mae'r ymarferwyr yn cyfathrebu'n effeithiol gyda phlant. Llwyddir i sefydlu perthynas agos sydd yn annog y plant i gyfrannu a mwynhau.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda iawn ac yn asesu a chofnodi eu cynnydd yn gyson. Caiff rhieni eu hysbysu am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant trwy drafodaethau anffurfiol ar ddechrau a diwedd sesiynau a thrwy adroddiad ysgrifenedig addas. Yn ogystal, caiff y rhieni gyfle i fynychu un sesiwn yn dymhorol er mwyn arsylwi ar y ddarpariaeth, cael sgwrs gyda'r ymarferwyr a thrafod gwaith eu plant. Cesglir enghreifftiau o waith pob plentyn mewn llyfryn sy'n gofnod defnyddiol o'u datblygiad. Cwblheir ffurflenni trosglwyddo gwybodaeth priodol i'r ysgol gynradd.

Yn ystod gweithgareddau, mae'r ymarferwyr yn arsylwi'n dda ac yn rhoi cymorth addas i blant o bob gallu. Mae medrau asesu cychwynnol y plant yn cael eu

datblygu trwy'r cyfleoedd dyddiol i fynegi barn yn syml am eu hoff weithgareddau. Gosodir targedau unigol byr dymor iddynt sy'n cael eu trafod yn briodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned ofalgar. Mae polisïau a threfniadau i gefnogi iechyd a lles plant yn weithredol. Mae'r trefniadau sefydlu, ynghyd â'r cyswllt dyddiol gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n gyflym. Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn gysurus yng nghwmni'r oedolion. Gosodir disgwyliadau clir sy'n hyrwyddo ymddygiad da.

Sefydlwyd trefniadau addas ar gyfer cefnogi plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol pan fydd angen, ac mae llinellau cyfathrebu priodol gydag asiantaethau allweddol. Mae gan y lleoliad bolisi priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu. Ymgymerir ag asesiadau risg o'r safle yn rheolaidd.

Mae profiadau dysgu effeithiol yn hyrwyddo datblygiad personol y plant yn dda, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae arferion beunyddiol fel cynnig gweddi cyn amser byrbryd, y dathliadau diolchgarwch a gwaith ar stori'r Nadolig yn cyfrannu at ddatblygiad ysbrydol y plant yn effeithiol. Mae'r cyfleoedd i berfformio mewn cyngherddau ar y cyd gyda disgyblion yr ysgol gynradd yn cyfrannu ymhellach at eu datblygiad cymdeithasol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac i'r holl weithgareddau a ddarperir. Llwyddir i greu awyrgylch deuluol a chroesawgar i blant a'u rhieni. Mae'r ymarferwyr yn ystyried ac yn gwerthfawrogi cefndiroedd amrywiol y plant ac yn gweithredu'n effeithiol yn unol â'r wybodaeth hon. Mae cymhareb briodol o ran ymarferwyr i blant.

Gwneir defnydd pwrpasol o'r gofod dysgu sydd ar gael trwy drefnu ardaloedd o weithgareddau pwrpasol. Ychwanegir at yr amgylchedd dysgu yn effeithiol trwy arddangos gwaith y plant a chreu arddangosfeydd lliwgar i gyd-fynd â'r themâu dan sylw. Gwneir defnydd rheolaidd o'r ardaloedd allanol sydd yn cynnwys gardd fechan ac ardal arall sy'n darparu cyfleoedd addas i'r plant archwilio a chwarae. Caiff yr ardal hon ei rhannu gyda'r ysgol gynradd. Ceir cyflenwad digonol o adnoddau a gwneir defnydd addas o'r amgylchedd lleol, megis y traeth, i gefnogi'r dysgu. Mae'r cyfleusterau storio yn brin a digonol yw ansawdd y cyfleusterau golchi dwylo i'r plant.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae nodweddion da iawn i reolaeth ddyddiol y lleoliad. O dan arweiniad cadarn a brwdfrydig y prif ymarferydd, llwyddir i greu amgylchedd trefnus a phwrpasol i'r plant. Mae'r ymarferwyr yn deall eu rolau sy'n arwain at greu gwaith tîm da. Maent yn meddu ar egwyddorion a gwerthoedd sefydlog sy'n seiliedig ar hyrwyddo datblygiad llawn bob plentyn.

Mae pwyllgor rheoli'r lleoliad yn cynnig cymorth effeithiol. Mae gan y swyddogion ddiddordeb mawr yn yr hyn sy'n digwydd ac maent yn cydweithio'n agos gyda'r prif ymarferydd. Maent yn ymwelwyr rheolaidd ac yn meddu ar wybodaeth sicr o'r ddarpariaeth a gynigir.

Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth addas i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen, hybu medrau iaith y plant a sefydlu cysylltiadau effeithiol gyda'r ysgol gynradd. Gweithredir strwythurau priodol ar gyfer gwerthuso gwaith ac adnabod datblygiad proffesiynol pellach yr ymarferwyr.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sicr o brif gryfderau'r lleoliad. Maent yn cyd-drafod ac yn agored i syniadau newydd er mwyn gwella'r ddarpariaeth ymhellach. At ei gilydd, mae'r dulliau arfarnu a ddefnyddir yn fwy anffurfiol eu natur. Mae'r adroddiad hunan arfarnu a'r cynllun gwella a gwblhawyd cyn yr arolygiad yn ddatblygiad da. Maent yn adnabod meysydd addas i dderbyn sylw. Ceisir barn rhieni ar agweddau ar y ddarpariaeth trwy holiaduron a rhoddir sylw priodol i'r sylwadau a wneir.

Mae gan yr ymarferwyr brofiad helaeth o weithio yn y lleoliad ac yn ystod y cyfnod hwn maent wedi mynychu cyrsiau addas ar ystod o agweddau sydd yn ymwneud ag addysg a gofal plant. Maent yn defnyddio'r hyfforddiant a geir yn effeithiol. Gwelir hyn, er enghraifft, ym mhrosesau cynllunio'r cwricwlwm.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaeth dda rhwng yr ymarferwyr. Mae perthynas dda hefyd gyda'r rhieni. Cadarnhawyd hyn yn y sgyrsiau a gafwyd yn ystod yr arolygiad. Mae ymarferwyr ar gael yn rheolaidd i gael sgwrs ar ddechrau a diwedd pob sesiwn. Darperir gwybodaeth berthnasol iddynt trwy gylchlythyron cyson. Mae mentrau, megis cynnig 'sachau llyfrau' i'r plant fynd adref i'w mwynhau, yn hyrwyddo ymrwymiad pellach y rhieni i addysg eu plant.

Sefydlwyd perthynas fuddiol iawn gyda'r ysgol gynradd sy'n cefnogi'r trefniadau trosglwyddo. Mae'r berthynas adeiladol gydag athrawes gyswllt yr Awdurdod Lleol a swyddog datblygu Mudiad Ysgolion Meithrin yn arwain at welliannau yng ngwaith y lleoliad. Mae'r cysylltiadau agos gyda'r gymuned yn cefnogi dysgu'r plant. Gwelir hyn yn y mentrau llwyddiannus i godi arian i brynu adnoddau ychwanegol. Gwneir defnydd effeithiol hefyd o bartneriaethau lleol eraill, sy'n cynnwys gwasanaeth y frigâd dân a'r llyfrgell, i ychwanegu at ddysgu'r plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff adnoddau eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol. Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol a sicrheir cyfleoedd hyfforddiant rheolaidd.

Mae gan yr arweinydd a'r swyddogion ddealltwriaeth glir o'r gyllideb a chaiff penderfyniadau gwariant eu blaenoriaethu'n addas yn ôl anghenion y lleoliad. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd un ymateb i holiadur y rhieni. Roedd canlyniadau'r holiadur a thrafodaeth gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad yn nodi cefnogaeth gref i'r Cylch. Nodwyd bod y plant yn mwynhau mynychu'r Cylch, yn ymgartrefu'n dda ac yn gwneud cynnydd cyson. Pwysleisiwyd y gofal a'r sylw a ddarperir i'r holl blant a'r croeso sydd iddynt fel rhieni ar bob achlysur. Credant fod eu plant wedi eu paratoi'n dda i symud ymlaen i'r ysgol gynradd.

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn hapus yn y lleoliad ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y gweithgareddau. Maent yn barod i sgwrsio'n syml am eu hoff weithgareddau ac yn nodi eu bod yn hoffi chwarae gyda'u ffrindiau.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol –**

| | |
|---|---|
| Dorothy Morris | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)